

Yr unig iachawdwr

“Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall, oblegid nid oes enw arall dan y nef ... y mae'n rhaid i ni gael ein hachub drwyddo.” (adn. 12)

Beth am ddarlflen Actau 4:1–12 ac yna myfyrio

Daliwn ati i feddwl am y ffaith mai Iesu ydy arwr stori fawr Duw. Mae crefyddau eraill yn rhoi parch uchel i Iesu, ond dydyn nhw ddim yn ei gydnabod fel canolbwynt bwriadau Duw. Mae'r Hindŵiaid yn falch o'i gydnabod fel “avatar” (disgynnydd) o Vishnu. Mae Mwslemiaid yn ei gydnabod fel un o'r proffwydi lle mae ei eni gwyrthiol, ei fywyd dibechod, ei weithredoedd o dosturi, ei wyrthiau a'i ddychweliad ryw ddydd i'r ddaear yn cael eu cadarnhau yn y Qur'an. Mae Iddewon sy'n gwrthod Iesu fel y Meseia yn dal i sôn amdano fel gŵr o gymeriad neilltuol a gyflawnodd lawer. Roedd hyd yn oed Karl Marx, a oedd yn ffyrnig ei feirniadaeth o grefydd ac yn edrych arni fel yr opiwm oedd yn llesmeirio'r rhai dan orthrwm i dderbyn anghyfiawnderau'r rheiny oedd mewn grym, er gwaethaf y cyfan, â meddwl uchel ganddo o Iesu.

Rhai blynyddoedd yn ôl, bûm yn siarad efo grŵp o fyfyrwyr nad oedden nhw'n Gristnogion ar thema “Yr Iesu Hanesyddol”. Wedi imi orffen, fe gododd y cadeirydd ar ei draed a dweud: “Tair bloedd i Iesu.” Teimlwn yn drist nad oedd fy mhwynt wedi cyrraedd adref, oherwydd nid “tair bloedd” sydd gan Iesu ei eisiau gennym, ond gwrogaeth ein calonnau.

Nid un Iachawdwr ymhlith llawer ydy Iesu Grist ein Harglwydd; ef ydy'r unig iachawdwr. Nid un o blith 330 miliwn o dduwiau'r Hindŵiaid ydy o, nac ychwaith un o blith y deugain proffwyd sy'n cael eu cydnabod yn y Qur'an. Nid ydy o chwaith, yng ngeiriau John Stott: “yn Iesu Fawr, fel y byddech yn dweud Llywelyn Fawr neu Napoleon Fawr ... ef yw'r unig un i ni; dim ond Iesu. Ellid ddim ychwanegu dim at hynny; mae o'n unigryw.” Gan fyw fel yr ydym mewn oes lle mae'r ysgolion yn dysgu bod i'r holl grefyddau werth cyfartal, gadewch i ni beidio ag anghofio nad un grefydd ymhlith llawer ydy Cristnogaeth; ond ei bod mewn dosbarth ar ei phen ei hun. Nid un Iachawdwr yw Crist, Ef yw'r unig Iachawdwr.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Ioan 5:24; Actau 17:29–31

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw'r unig ffordd o groesi o farwolaeth i fywyd?
2. Sut mae Duw yn dangos mai Iesu yw'r unig Iachawdwr?

Gweddi

O Dad, gwared fi rhag cael fy sgubo gyda lli'r plwraliaeth sydd yn rhemp yn ein cymdeithas heddiw, gan golli golwg ar y ffaith mai Iesu yw'r unig Iachawdwr. Helpa fi i fod yn driw i'r Ysgrythur, ond gyda thiriondeb. Yn enw Iesu y gweddi'af. Amen.